Polisi Cyfle Cyfartal

1.0 Mae Cyngor Cymuned Y Felinheli yn gyflogwr cyfle cyfartal.

2.0 Mae'r Cyngor yn ceisio cyflogi swyddogion sy'n adlewyrchu amrywiaeth y gymuned, gan fod y Cyngor yn gwerthfawrogi cyfraniad unigolion, heb ystyried hil, rhyw, statws beichiogrwydd neu famolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, oedran, anabledd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd neu gred, lliw, cenedl, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol nac unrhyw nodwedd arall o'r fath.

3.0 Mae'r polisi hwn yn cofnodi ymrwymiad ac amcanion y Cyngor er mwyn sicrhau nad yw'n trin unigolion yn annheg mewn unrhyw weithgaredd busnes.

4.0 Mae hefyd yn amlinellu blaenoriaethau'r polisi a'r trefniadau er mwyn gwneud cynnydd.

5.0 Bydd y Cyngor yn trin pob gweithiwr ac ymgeisydd am swydd ag urddas a pharch, a bydd yn darparu amgylchedd gwaith heb unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon, erledigaeth nac aflonyddu ar sail rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, oedran, statws priodasol, anabledd, hil, lliw, crefydd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol (nodweddion gwarchodedig) nac aelodaeth o undeb llafur.

6.0 Bydd y Cyngor yn sicrhau nad yw Swyddogion yn cael ei roi dan anfantais gan amodau neu ofynion na ellir dangos bod cyfiawnhad drostynt.

7.0 Mae egwyddorion ymarfer gwrth-wahaniaethol a chyfle cyfartal hefyd yn berthnasol i'r ffordd y mae'r Swyddogion yn trin ymwelwyr, cleientiaid, cwsmeriaid, a chyflenwyr.

8.0 Mae gan bob Swyddog ac aelod ddyletswydd i weithredu yn unol â'r polisi hwn.

9.0 Bydd pob swyddog newydd yn cael hyfforddiant cynefino a fydd yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r polisi hwn a bydd yn ofynnol i swyddogion ddilyn cyfarwyddiadau'r polisi hwn.

10.0 Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol, i gynnig darpariaeth i bobl anabl.

11.0 Gall wneud hyn drwy addasu safleoedd a chyfarpar, darparu gwell cyfleusterau mynediad neu o bosib drwy newid telerau ac amodau cyflogaeth.